Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Dyffryn Nantlle**
**Ffordd Y Brenin**
**Penygroes**
**Gwynedd**
**LL54 6RL**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Delyth Lloyd Gray | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Kiff | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Sion Peters-Flyn | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Dyffryn Nantlle wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Ionawr, 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd yn 2015, mae perfformiad yr ysgol ym mron pob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella. Mae data dros dro ar gyfer 2016 yn cynrychioli'r perfformiad gorau erioed ar gyfer yr ysgol yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion hyn ac yn dangos cynnydd pellach ar y gwelliannau a welwyd yn 2015.

Yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 TGAU gradd A*-C yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, mae data ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad yr ysgol wedi codi bron i ddeg pwynt canran ers amser yr arolygiad craidd. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim ac yn nes at y deilliannau modeledig nag ar adeg yr arolygiad craidd.

Mae'r perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd ac yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio eto wedi gwella ers 2014 ond yn parhau i osod yr ysgol islaw cyfartaledd y teulu ac yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 wedi gwella dros naw pwynt canran ers 2014. Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 1 hefyd wedi gwella ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd i brydau ysgol am ddim am yr ail flwyddyn yn olynol.

Yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 gradd TGAU A*-A, mae perfformiad yr ysgol wedi dirywio ers yr arolygiad craidd.

Mae perfformiad Cymraeg ar lefel 2 wedi gwella ers 2014 ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd i brydau ysgol am ddim. Er bod perfformiad Saesneg ar lefel 2 wedi gwella yn 2015, mae perfformiad yr ysgol yn 2016 wedi dirywio ac yn debyg iawn i'r perfformiad ar adeg yr arolygiad craidd. Mae perfformiad Saesneg yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg.

Mewn mathemateg ar lefel 2, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella 13 pwynt canran ers yr arolygiad craidd yn2015. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i osod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail cymhwysedd i brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi gwella ers 2014 ac yn gosod yr ysgol ymhlith y chwarter uchaf o ysgolion tebyg.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad bechgyn wedi gwella ym mron pob dangosydd allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Mae data ar gyfer 2016 yn dangos bod perfformiad bechgyn wedi gwella’n sylweddol yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Mae perfformiad merched hefyd wedi gwella yn y mwyafrif o’r dangosyddion, gan gynnwys mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae perfformiad merched wedi dirywio yn y Gymraeg, Saesneg a’r sgôr pwyntiau wedi’i chapio ers 2014.

Ers 2014, mae perfformiad y disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim wedi gwella mewn tua hanner o’r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mae perfformiad y disgyblion hyn yn y trothwy lefel 2 sydd yn cynnwys Cymraeg, Saesneg a mathemateg wedi dirywio.

Ym mron pob un o’r gwersi, mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn ac yn arddangos cymhelliant cryf i ddysgu ac i weithio. Maent yn dangos parch at eu hathrawon, yn gwrando’n ofalus ac yn ymateb yn gadarnhaol i dasgau. Mae bron pob un disgybl yn cydweithio’n gynhyrchiol â’i gilydd mewn parau neu mewn grŵp. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dwyn i gof wybodaeth flaenorol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso’u gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn fedrus wrth wneud cynnydd yn eu dysgu.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr mewn medrau meddwl wrth ymateb yn greadigol i dasgau ac wrth ddatrys problemau. Maent yn arddangos aeddfedrwydd wrth weithio’n annibynnol ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu strategaethau darllen effeithiol ac yn arddangos medrau trawsieithu cadarn. Mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu’n gywir ac yn estynedig gan ddefnyddio geiriau pynciol yn gywir ac yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cyfathrebu Cymraeg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn ddi-hyder wrth siarad yn y gwersi Saesneg ac nid ydynt yn cynnig atebion estynedig ar lafar.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau rhif yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae’r mwyafrif yn arddangos medrau cyfrifo priodol ac yn fedrus wrth ddefnyddio’r pedair rheol rhif yn annibynnol. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig o bynciau mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu’n briodol.

Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn canolbwyntio’n ddigonol ac nid ydynt yn gwrando’n ddigon astud. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion hyn yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn ôl eu hoedran a’u gallu.

**Argymhelliad 2: Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu ac asesu**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae’r ffocws cadarn ar wella addysgu ac asesu ar draws yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws yr ysgol, yn enwedig y cynnydd mae llawer o ddisgyblion yn gwneud mewn gwersi.

Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n fanwl iawn gan sicrhau strwythur clir ac amcanion uchelgeisiol. Yn y gwersi hyn, ceir cyfres o weithgareddau cydlynus a chyflymdra byrlymus sydd yn sicrhau cynnydd. Yn ogystal, mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu, er enghraifft holi treiddgar, sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn fodelau iaith cadarn. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon berthynas weithiol, gynhyrchiol gyda'u disgyblion ac maent yn rheoli'r dosbarth yn effeithiol. Maent yn cynllunio gwersi yn fwriadus ac yn ofalus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd. Maent yn cynnig tasgau heriol a diddorol sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion drafod ac i ddatblygu eu medrau llafaredd a meddwl yn llwyddiannus. Mae athrawon yn y gwersi hyn yn cyflwyno ac esbonio gwybodaeth yn glir. Mae llawer o athrawon yn cylchu'r dosbarth yn gyson er mwyn arwain disgyblion a chynnig her a chymorth priodol.

Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio tasgau'n ddigon cydlynus i sicrhau bod eu disgyblion yn gwneud cynnydd. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl, darllen a chyfathrebu.

**Argymhelliad 3: Cryfhau a chysoni'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a disgyblion mwy abl a thalentog**

Cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi gwella.

Bellach, ym maes llythrennedd yn y Gymraeg, mae gan yr ysgol bolisïau priodol a threfniadau buddiol i sicrhau darpariaeth deilwng i ddisgyblion, er enghraifft adnoddau o safon uchel i'w defnyddio mewn sesiynau boreol wythnosol. Mae'r ysgol wedi darparu cymorth defnyddiol i adrannau lunio tasgau cyfoethog ac estynedig i ddisgyblion. O ganlyniad, mae athrawon yn gosod tasgau llythrennedd gwerthfawr ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3.

Mae gweithdrefnau i godi safonau llythrennedd Saesneg yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwella eu safonau iaith trwy ymarferion penodol sy'n codi o'r cynllun 'rheol iaith yr wythnos'. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion mewn llythrennedd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau monitro cynnydd wedi arwain at godi safonau Saesneg yng nghyfnod allweddol 4.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cwblhau'r tasgau llythrennedd buddiol 'iaith ar waith' yn eu pynciau. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn cywiro gwallau iaith elfennol a chamsillafu disgyblion yn ddigon cyson.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi mynd ati'n briodol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno polisi rhifedd addas a llyfryn rhif

defnyddiol i athrawon er mwyn sicrhau cysondeb mewn dulliau dysgu elfennau o rifedd. Mae'r cydlynydd yn cydweithio'n gadarnhaol gydag adrannau perthnasol i arfarnu a mireinio eu tasgau rhif ac mae nifer yr adrannau sy'n cyflwyno gweithgareddau rhif priodol wedi cynyddu. Trefnir gweithgareddau buddiol wythnosol i ddisgyblion cyfnod allweddol 3, megis 'Taclo Rhif'. Mae'r ysgol yn dadansoddi canlyniadau profion rhif yn ofalus. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwneud defnydd digon manwl o dystiolaeth am berfformiad disgyblion mewn gwersi ac mewn profion allanol i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y disgyblion mwyaf abl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi gwella ers yr arolygiad craidd. Mae athrawon mewn nifer cynyddol o bynciau yn gosod tasgau addas a diddorol wedi'u lefelu'n briodol. Yn dilyn awdit diweddar i ganfod anghenion datblygiad staff yn y maes hwn, mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant priodol i ychydig o athrawon. Fodd bynnag, nid oes cynllun cydlynus ar waith i ehangu medrau athrawon ymhellach.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog (MATh) ers adeg yr arolygiad craidd. Bellach, mae llawer o athrawon yn arddel diwylliant o herio disgyblion MATh ac mae trefniadau gofalus i fonitro perfformiad y disgyblion hyn. Mae disgyblion MATh yn cael cyfleoedd gwerthfawr a rheolaidd i leisio barn am ansawdd dysgu ac addysgu gydag athrawon.

Mae rheolwyr yn gosod disgwyliadau cadarn ar adrannau i sicrhau profiadau a thasgau heriol i'r disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl ar draws yr holl ystod pynciau. Serch y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar safonau yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 4: Datblygu rôl arweinwyr ar bob lefel fel eu bod yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau strategol yn llawn**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r corff llywodraethol wedi penodi pennaeth ysgol newydd ers adeg yr arolygiad craidd. Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol glir ac uchelgeisiol ac mae hi'n ei rhannu'n ddi-amwys gyda'i holl staff. Gyda chefnogaeth gadarn yr uwch dîm arwain, mae'r pennaeth yn gosod ffocws cryf ar godi safonau, gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu a chryfhau arweinyddiaeth.

Mae bron pob un o'r arweinwyr canol wedi ymrwymo'n llawn i weledigaeth y pennaeth. Mae arweinwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac mae lefel uchel o atebolrwydd ynghlwm wrth y cyfrifoldebau hyn. Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i arweinwyr canol i ddadansoddi ac arfarnu safonau yn eu hadrannau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn fanwl ac yn arfarniadau gonest a chywir o safonau ac ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth. Mae blaenoriaethau ysgol gyfan wedi'u hymgorffori'n briodol yn y cynlluniau gwella adrannol, yn ogystal â meysydd i'w gwella sydd yn deillio'n uniongyrchol o'r arfarniadau adrannol.

Mae'r ysgol yn gweithredu trefn gadarn o gynnal a chofnodi cyfarfodydd rheolaethol ar bob lefel. Mae hyn wedi arwain at gyfathrebu clir a buddiol rhwng yr uwch dîm arwain a'r arweinwyr canol. Mae rheolwyr cyswllt yn monitro gwaith arweinwyr canol yn ofalus.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gywir o safonau cyflawniad yr ysgol. Mae'r ysgol wedi sefydlu is-bwyllgor monitro ansawdd i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd. Mae'r pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn monitro a herio perfformiad yr ysgol. Mae'r trefniadau hyn wedi llwyddo i godi safonau mewn llawer o ddangosyddion ac i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ers adeg yr arolygiad craidd.

O ganlyniad i ffocws cyson ar wella ansawdd a chysondeb yr arweinyddiaeth, mae'r ysgol wedi llwyddo i wneud gwelliannau mewn llawer o ddangosyddion pwysig yng nghyfnod allwedol 4.

**Argymhelliad 5: Cryfhau'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus i staff a sicrhau bod mwy o ffocws ar wella dysgu ac addysgu ac ansawdd yr arweinyddiaeth**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Yn dilyn yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi blaenoriaethu codi safonau dysgu ac addysgu yn briodol drwy lunio rhaglen gynhwysfawr a phwrpasol o hyfforddiant gan ddarparwyr mewnol ac allanol. Er enghraifft, rhoddwyd cyfres o hyfforddiant buddiol ar nodweddion addysgu da, megis holi effeithiol a datblygu strategaethau darllen.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno arweiniad gwerthfawr ar faterion pwysig megis craffu ar waith disgyblion a dod i farn am safonau ac ansawdd addysgu wrth arsylwi gwersi. Mae arweinwyr wedi cynnal gweithgareddau traws-ysgol buddiol, megis 'ffair craffu ar lyfrau' er mwyn rhannu arferion da. Bellach, mae gallu arweinwyr ar bob lefel i arfarnu data perfformiad a safon gwaith disgyblion mewn llyfrau a gwersi wedi cryfhau'n sylweddol.

Mae'r uwch arweinwyr wedi darparu cymorth dwys i adrannau a staff unigol sydd angen gwella ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a'r dysgu yn y rhan fwyaf o achosion. Bellach, mae cylch rheoli perfformiad staff cydlynusar waith. Mae'r ysgol yn delio'n gadarn ac yn briodol gyda'r ychydig iawn o achosion o danberfformio gan staff.

Mae'r ysgol wedi rhoi hyfforddiant priodol ar strategaethau i godi lefel yr her i ddisgyblion mewn gwersi. Yn ddiweddar, o ganlyniad i ymgynghori â disgyblion, mae ychydig o adrannau wedi creu cyfres o dasgau estynedig gwerthfawr i ddisgyblion mwy abl. Mae'n rhy fuan i fesur effaith hyn ar safonau disgyblion.

O ganlyniad i hyfforddiant priodol a buddiol i staff, mae gwelliant sylweddol yn ansawdd y dysgu, addysgu a'r arweinyddiaeth ar draws yr ysgol ers yr arolygiad craidd.

**Argymhelliad 6: Gwella cyfraniad disgyblion a rhieni i benderfyniadau yn yr ysgol.**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o weithdrefnau llwyddiannus sydd wedi sicrhau cynnydd sylweddol yng nghyfraniad disgyblion a'u rhieni i waith yr ysgol.

Mae statws y cyngor ysgol wedi codi ers adeg yr arolygiad craidd, a bellach, mae trefn reolaidd i'w cyfarfodydd. Mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad priodol at drefniadau hunanarfarnu'r ysgol. Mae'r cyngor yn cynnal trafodaethau aeddfed ar faterion pwysig fel ansawdd dysgu ac addysgu a chynlluniau hybu darllen. Maent hefyd wedi cyfrannu sylwadau gwerthfawr ar y drefn wobrwyo newydd.

Mae cyswllt yr ysgol gyda'i rhieni wedi gwella'n sylweddol. Mae'r ysgol yn darparu cylchlythyr tymhorol diddorol a buddiol i rieni. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni drwy'r wefan ac yn rhannu gwybodaeth bwysig, er enghraifft data perfformiad yr ysgol. Ceir nosweithiau rhieni defnyddiol ar faterion addysgol penodol, er enghraifft cyfraniad rhieni i gefnogi gwaith eu plant. Mae'r ysgol yn cynnal fforwm gwerthfawr i rieni er mwyn trafod materion o bwys.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o holiaduron barn rhieni a disgyblion i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae llawer o adrannau yn casglu barn disgyblion ar elfennau penodol o'u gwersi ac yn gwneud addasiadau synhwyrol yn sgil y rhain.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.